O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 107

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*22 Mehefin 2026*
Yn dod i rym	*1 Medi 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 107

The Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*22 June 2026*
Coming into force	*1 September 2026*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 107

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn gwneud darpariaeth ynghylch hyd y diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol. Mae Rheoliadau 2003 yn darparu bod y diwrnod ysgol fel arfer yn cael ei rannu'n ddwy sesiwn gydag egwyl yn y canol, ac i ysgolion gyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff (2) o reoliad 4 o Reoliadau 2003 i ddarparu y bydd o leiaf 390 o sesiynau ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol (rheoliad 2(2)).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn rhoi rheoliad newydd yn lle rheoliad 5 o Reoliadau 2003 i ddarparu y bydd 12 sesiwn ysgol mewn blwyddyn ysgol yn cyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol a rhaid defnyddio'r sesiynau hynny at y dibenion a ragnodir (rheoliad 2(3)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn hepgor rheoliad 7 o Reoliadau 2003 (rheoliad 2(4)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Arweinyddiaeth, Yr Is-adran Ymarferwyr Ysgolion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2026 Rhif 107

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*22 Mehefin 2026*
Yn dod i rym	*1 Medi 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551(1) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2026.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003

2.—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "380" rhodder "390", a

(b) hepgorer paragraff (8).

(3) Yn lle rheoliad 5 rhodder—

> **"5.**—(1) Ym mhob blwyddyn ysgol, rhaid defnyddio 12 sesiwn ysgol yn llwyr neu'n bennaf at y dibenion a ganlyn—

(**1**) 1996 p. 56; mewnosodwyd adran 551(1A) gan Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), Atodlen 7, paragraff 39; diwygiwyd adran 551(2) gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31), Atodlen 30, paragraff 166 ac Atodlen 31 a chan O.S. 2010/1158; diwygiwyd adran 569(4) gan Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5), adran 8(5); diddymwyd adran 569(5) gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2), Atodlen 1, paragraff 4(30)(c) ond ar ddyddiad gwneud y Rheoliadau hyn nid yw'r diddymiad hwnnw mewn grym eto. Am ystyr "regulations" gweler adran 579(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), Atodlen 11, paragraff 30.

(**3**) O.S. 2003/3231 (Cy. 311); a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy. 101), O.S. 2006/1262 (Cy. 119), O.S. 2008/1739 (Cy. 171), O.S. 2011/149 (Cy. 33), O.S. 2012/248 (Cy. 41), O.S. 2019/1131 (Cy. 196), O.S. 2020/848 (Cy. 187), O.S. 2021/1476 (Cy. 378), O.S. 2022/61 (Cy. 23), O.S. 2023/37 (Cy. 4) a chan O.S. 2025/743 (Cy. 128).

(a) darparu hyfforddiant neu baratoi a chynllunio, mewn perthynas ag un neu ragor o'r canlynol—

(i) gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**4**) ar gyfer disgyblion yn yr ysgol;

(ii) y cwricwlwm sydd i'w ddarparu yn yr ysgol o dan Rannau 2 a 3 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**5**) ("Deddf 2021");

(iii) y trefniadau asesu sydd i'w gwneud ar gyfer disgyblion yn yr ysgol o dan Ran 4 o Ddeddf 2021;

(iv) y blaenoriaethau cenedlaethol fel y'u diffinnir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014(**6**) ("Rheoliadau 2014");

(v) y blaenoriaethau gwella'r ysgol fel y'u diffinnir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2014;

(b) darparu unrhyw hyfforddiant arall y mae'r corff llywodraethu yn ystyried ei fod yn briodol.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw hyfforddiant neu baratoi a chynllunio a ddarperir o dan baragraff (1)—

(a) mae'n cynnwys hyfforddiant neu baratoi a chynllunio a fynychir gan staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu,

(b) mae'n cynnwys hyfforddiant neu baratoi a chynllunio a gynhelir ar y cyd ag ysgolion eraill, ac

(c) yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid iddo fod yn bennaf at y dibenion a nodir ym mharagraff (1)(a).

(3) Ystyrir bod y ddyletswydd ym mharagraff (2)(c) wedi ei chyflawni os yw'r mwyafrif o'r holl hyfforddiant neu gynllunio a pharatoi a ddarperir o dan baragraff (1) mewn blwyddyn ysgol at un neu ragor o'r dibenion a nodir ym mharagraff (1)(a).

(4) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, mae'r sesiwn ysgol honno i'w hystyried at ddibenion rheoliad 4 fel sesiwn ysgol pan gyfarfu'r ysgol."

(4) Hepgorer rheoliad 7.

Anna Brychan
Y Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
22 Mehefin 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

(**4**) 2018 dccc 2.
(**5**) 2021 dsc 4.
(**6**) O.S. 2014/2677 (Cy. 265); a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/679 (Cy. 155); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 107

EDUCATION, WALES

The Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003 ("the 2003 Regulations") make provision about the length of the school day and school year. The 2003 Regulations provide that the school day is ordinarily divided into two sessions with a break in the middle, and for schools to meet for at least 380 sessions during any school year.

These Regulations amend paragraph (2) of regulation 4 of the 2003 Regulations to provide that there will be at least 390 school sessions during any school year (regulation 2(2)).

These Regulations also substitute regulation 5 of the 2003 Regulations to provide that 12 school sessions in a school year will count as sessions on which the school has met and those sessions must be used for the purposes prescribed (regulation 2(3)).

These Regulations omit regulation 7 of the 2003 Regulations (regulation 2(4)).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Leadership Branch, School Practitioner Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2026 No. 107

EDUCATION, WALES

The Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*22 June 2026*
Coming into force	*1 September 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 551(1) and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**1**) and now vested in them(**2**), make the following Regulations.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 September 2026.

Amendment of the Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003

2.—(1) The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003(**3**) are amended as follows.

(2) In regulation 4—

(a) in paragraph (2), for "380" substitute "390", and

(b) omit paragraph (8).

(3) For regulation 5 substitute—

> **"5.**—(1) In every school year, 12 school sessions must be used wholly or mainly for the following purposes—

(**1**) 1996 c. 56; section 551(1A) was inserted by the Education Act 1997 (c. 44), Schedule 7, paragraph 39; section 551(2) was amended by the School Standards and Framework Act 1998 (c. 31), Schedule 30, paragraph 166 and Schedule 31 and by S.I. 2010/1158; section 569(4) was amended by the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5), section 8(5); section 569(5) was repealed by the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 (anaw 2), Schedule 1, paragraph 4(30)(c) but at the date of the making of these Regulations that repeal is not yet in force. For the meaning of "regulations" see section 579(1).

(**2**) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c. 32), Schedule 11, paragraph 30.

(**3**) S.I. 2003/3231 (W. 311); amended by S.I. 2010/1142 (W. 101), S.I. 2006/1262 (W. 119), S.I. 2008/1739 (W. 171), S.I. 2011/149 (W. 33), S.I. 2012/248 (W. 41), S.I. 2019/1131 (W. 196), S.I. 2020/848 (W. 187), S.I. 2021/1476 (W. 378), S.I. 2022/61 (W. 23), S.I. 2023/37 (W. 4) and by S.I. 2025/743 (W. 128).

(a) the provision of training or preparation and planning, in relation to one or more of the following—

(i) the operation of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018(**4**) for pupils at the school;

(ii) the curriculum to be provided at the school under Parts 2 and 3 of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021(**5**) ("the 2021 Act");

(iii) the assessment arrangements to be made for pupils at the school under Part 4 of the 2021 Act;

(iv) the national priorities as defined in regulation 2(1) of the Education (School Development Plans) (Wales) Regulations 2014(**6**) ("the 2014 Regulations");

(v) the school improvement priorities as defined in regulation 2(1) of the 2014 Regulations;

(b) the provision of any other training the governing body considers appropriate.

(2) Any training or preparation and planning provided under paragraph (1)—

(a) includes training or preparation and planning attended by both teaching and non-teaching staff,

(b) includes training or preparation and planning conducted jointly with other schools, and

(c) subject to paragraph (3), must be mainly for the purposes set out in paragraph (1)(a).

(3) The duty in paragraph (2)(c) will be regarded as met if the majority of all training or planning and preparation provided under paragraph (1) in a school year is for one or more of the purposes set out in paragraph (1)(a).

(4) Where paragraph (1) applies, that school session is to be regarded for the purposes of regulation 4 as a school session on which the school has met."

(4) Omit regulation 7.

Anna Brychan
Cabinet Minister for Education and the Welsh Language, one of the Welsh Ministers
22 June 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

(**4**) 2018 anaw 2.
(**5**) 2021 asc 4.
(**6**) S.I. 2014/2677 (W. 265); amended by S.I. 2022/679 (W. 155); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.

williams lea | tso
An RRD Company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839878-6

9 780348 398786